Plastig

Cysyniadau: **Gofal, parchu, amddiffyn, arbrofi.**

Amcan: **Dangos bod ein llygredd ni yn amharu ar y byd o'n cwmpas.**

Cyfarpar: **Bag plastig, cerdyn banc, peipen blastig, tegan plastig, potel ddŵr.**

Cyflwyniad:

● Beth sydd ar y bwrdd heddiw? Codi'r gwrthrychau fesul un a gofyn beth sy'n gyffredin rhyngddyn nhw. Maen nhw i gyd wedi'u gwneud o blastig. Dyfeisiwyd plastig am y tro cyntaf gan fferyllydd o wlad Belg o'r enw Leo Baekeland yn 1905.

● Mae plastig yn cael ei wneud o olew. Mae'n ddefnyddiol iawn gan ei fod mor hyblyg fel y bag plastig i roi nwyddau ynddo. Mae hefyd yn galed fel y tegan neu'r beipen blastig. Mae cant a mil o bethau defnyddiol iawn wedi'u gwneud o blastig.

● Ond mae plastig yn gallu bod yn niweidiol gan ei bod yn anodd iawn cael gwared â phlastig. Fe all gymryd rhwng 300 a mil o flynyddoedd i gael gwared â nwyddau plastig.

● Erbyn hyn mae plastig yn broblem fawr yn ein moroedd a'n cefnforoedd. Mae plastig yn llygru'r moroedd. Gan ei bod yn anodd iawn cael gwared â'r plastig mae'n aros yn y moroedd am flynyddoedd neu ganrifoedd.

● Dyma ychydig o ffeithiau i ni feddwl amdanyn nhw: (Gellir dangos y rhain ar y bwrdd gwyn.)

● Mae mwy nag 8 miliwn o dunelli o blastig yn cael ei daflu i'r cefnforoedd bob blwyddyn.

● Mae anifeiliaid fel y siarcod, dolffiniaid a chrwbanod môr yn bwyta'r plastig gan feddwl mai bwyd y môr ydi o. Mae adar y cefnforoedd, fel yr albatros, yn cael eu dal yn y rhwydi plastig ac yn methu dod yn rhydd ac yn y diwedd yn marw.

● Ond dyma un ffaith ychwanegol; yn nes adref y tro hwn. Mae'n siŵr fod ganddoch chi beiriant golchi dillad adref. Gan fod rhai dillad yn cael eu gwneud o ddarnau mân o blastig mae'r darnau mân yma'n arllwys allan o'r peiriant ac yn mynd efo'r dŵr carthffosiaeth a hwnnw yn ei dro yn mynd i'r afonydd a'r moroedd.

Trafodaeth bellach:

● Sut medrwn ni leihau ein defnydd o blastig? Peidio defnyddio bagiau plastig sydd ar gael (am 5c!) yn ein harchfarchnadoedd.

● Ailgylchu ac ailddefnyddio. A oes angen cymaint o blastig i orchuddio gwahanol fwydydd?

● Oes angen prynu dŵr mewn potel blastig? Beth am ddŵr o'r tap? Mae 90% o bris y botel ddŵr yn mynd am y potelu, pacio a marchnata. Bydd y poteli wedyn yn cael eu cuddio yn y domen sbwriel am flynyddoedd. Yn Guatemala, yng Nghanolbarth America, mae rhai o'r trigolion yn defnyddio briciau wedi'u gwneud o boteli plastig a'u llenwi â phob math o sbwriel plastig i adeiladu tai.

● Yn ninas Joygopalpur yn yr India maen nhw'n gwneud briciau plastig o wastraff sbwriel sef bagiau plastig. Mae'r briciau hyn yn gryf ac yn gallu gwrthsefyll tywydd garw.

● OND mae un stori ryfeddol arall. Yn 2012 yn fforestydd trofannol Ecuador yn Ne America mae gwyddonwyr wedi darganfod ffwng, math o fadarch sy'n gallu 'bwyta' plastig. Does gan y ffwng hwn

ddim enw Cymraeg na Saesneg (hyd yn hyn) a'i enw gwyddonol ydi PESTALOTIOPSIS MICROSPORA. Ac mewn claddfa sbwriel yn Islamabad, Pakistan mae gwyddonwyr wedi darganfod ffwng arall ASPERGILLUS TUBINGENSIS sy'n byw yng nghanol y sbwriel ac yn tyfu ar y plastig. Mae hyn yn newyddion da. Mae Mistar ar Mistar Mostyn!

Dyfyniad o'r Beibl:
Yn y dechreuad creodd Duw y nefoedd a'r ddaear ... Gwelodd Duw y cwbl a wnaeth, ac yr oedd yn dda iawn. Genesis 1:1, 31 BCND

Emyn: Gofalodd Duw: Clap a Chân i Dduw 15

Munud i feddwl:
Rydyn ni'n gwybod y gwahaniaeth rhwng bag plastig a slefren fôr ond dydi'r crwban môr ddim.

Myfyrdod/Gweddi:
Diolchwn am y byd. Am y prydferthwch o'n cwmpas – y mynyddoedd, y dyffrynnoedd, yr afonydd, y llynnoedd a'r moroedd. Ond rydym wedi difetha ac wedi llygru'r byd. Gwnawn ein gorau i ddiogelu ein planed. Amen.